



Highfield

Qualifications®

www.highfieldqualifications.com

Manyleb y Cymhwyster

**Dyfarniad Lefel 2 Highfield
mewn Iechyd a Diogelwch yn y
Gweithle (RQF)**

Rhif y Cymhwyster: 603/1289/0

Fersiwn 1.6 Ionawr 2019

Cynnwys

| | |
|---|----|
| Cyflwyniad | 3 |
| Rheoleiddio'r cymhwyster a chymorth | 3 |
| Ffeithiau allweddol..... | 3 |
| Trosolwg o'r cymhwyster a'i amcan..... | 3 |
| Gofynion mynediad | 3 |
| Canllawiau ynghylch darparu'r cymhwyster | 4 |
| Canllawiau ynghylch asesu..... | 4 |
| Cydnabod dysgu blaenorol (RPL) | 4 |
| Gofynion o ran tiwtoriaid | 5 |
| Addasiadau rhesymol ac ystyriaethau arbennig..... | 5 |
| Gofynion o ran dogfennau adnabod | 5 |
| Cyfleoedd i gamu ymlaen..... | 6 |
| Gwefannau defnyddiol | 6 |
| Deunyddiau hyfforddi argymelledig | 6 |
| Atodiad 1: Strwythur y cymhwyster | 7 |
| Atodiad 2: Cynnwys y cymhwyster | 8 |
| Atodiad 3: Deunydd Asesu Enghreifftiol | 11 |

Dyfarniad Lefel 2 Highfield mewn Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle (RQF)

Cyflwyniad

Bwriad manyleb y cymhwyster hwn yw sicrhau fod gennych chi'r holl wybodaeth sy'n ofynnol i allu cynnig y cymhwyster hwn yn eich canolfan. Os oes gennych chi ragor o gwestiynau, cysylltwch â rheolwr eich cyfrif.

Rheoleiddio'r cymhwyster a chymorth

Mae Dyfarniad Lefel 2 Highfield mewn Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle wedi cael ei ddatblygu ac mae'n cael ei ddyfarnu gan Highfield Qualifications ac mae'n rhan o'r Fframwaith Cymwysterau Rheoledig (RQF). Mae'r RQF yn fframwaith cymwysterau sy'n cael ei reoleiddio gan Ofqual a CCEA. Mae'n addas hefyd i'w ddarparu yng Nghymru a chaiff ei reoleiddio gan Gymwysterau Cymru.

Ffeithiau allweddol

| | |
|---|--------------------------------|
| Rhif y Cymhwyster: | 603/1289/0 |
| Cyfeirnod nod dysgu: | 60312890 |
| Gwerth y credydau: | 1 |
| Dull asesu: | Arholiad Cwestiynau Aml-ddewis |
| Oriau dysgu dan arweiniad (GLH): | 6 |
| Cyfanswm amser y cymhwyster (TQT): | 10 |

Trosolwg o'r cymhwyster a'i amcan

Mae'r cymhwyster hwn wedi'i lunio i roi gwybodaeth i ddysgwyr am arferion iechyd a diogelwch sylfaenol sy'n hanfodol yn y gweithle.

Nod y cymhwyster yw:

- Cynorthwyo dysgwyr i fynd ymlaen i wneud rhagor o hyfforddiant/hyfforddiant ar lefel uwch
- Cynorthwyo dysgwyr i gyflawni swydd yn y gweithle

Gofynion mynediad

I gofrestru ar gyfer y cymhwyster hwn, mae'n ofynnol i ddysgwyr gyflawni'r gofynion mynediad dilynol: dylent fod yn 14 mlwydd oed neu'n hŷn.

Canllawiau ynghylch darparu'r cymhwyster

Mae angen cyfanswm o 10 awr i ddarparu'r cymhwyster hwn, ac argymhellir y dylai 6 awr fod yn oriau dysgu dan arweiniad.

Mae TQT yn amcangyfrif o gyfanswm yr oriau y byddai ar ddysgwr arferol eu hangen i gyflawni'r cymhwyster ac arddangos y lefel ofynnol o gyrhaeddiad i allu ennill cymhwyster, dan oruchwyliaeth uniongyrchol (sef yr Oriau Dysgu Dan Arweiniad) a heb oruchwyliaeth (unrhyw amser arall). Awgrym yw cyfanswm y TQT a'r GLH, a chânt eu pennu i gymwysterau er mwyn cynnig arweiniad.

Fel arfer, caiff y cymhwyster hwn ei ddarparu mewn ystafell dosbarth, ond os caiff ei ddarparu trwy gyfrwng e-ddysgu neu ddulliau dysgu cyfunol, byddai'r GLH yn cael ei addasu yn unol â hynny.

Canllawiau ynghylch asesu

Caiff y cymhwyster hwn ei asesu gan ddefnyddio arholiad cwestiynnau amlddewis (MCQ). Mae'r dull hwn o asesu yn arholiad ar ddiwedd y cwrs ac mae'n rhaid iddo ddilyn Gweithdrefnau Arholiadau a Goruchwyllo Arholiadau Highfield Qualifications. Mae arholiad y cymhwyster hwn yn cynnwys **20 cwestiwn** y mae'n rhaid eu hateb o fewn **45 munud**. Bydd yn rhaid i ddysgwyr llwyddiannus arddangos gwybodaeth a dealltwriaeth sy'n cwmpasu maes llafur y cymhwyster a chyflawni **marc llwyddo o 60%** o leiaf. Dylid dychwelyd papurau arholiad wedi'u cwblhau at Highfield Qualifications i'w marcio. Anfonir y canlyniadau at y ganolfan wedi hynny.

Mae'n rhaid i ganolfannau wneud popeth sy'n rhesymol i sicrhau na chaiff unrhyw ran o'r gwaith o asesu dysgwyr (yn cynnwys unrhyw waith sicrwydd ansawdd mewnol a goruchwyllo arholiadau) ei wneud gan unrhyw unigolyn sydd â diddordeb personol yng nghanlyniad yr asesiad.

Cydnabod dysgu blaenorol (RPL)

Gall canolfannau wneud cais i ddefnyddio cydnabyddiaeth o ddysgu blaenorol neu gyflawniadau blaenorol er mwyn lleihau cyfanswm yr amser a dreulir yn paratoi dysgwr i gael ei asesu.

I gael rhagor o wybodaeth am sut gall canolfannau wneud cais i ddefnyddio RPL fel y disgrifir uchod, cyfeiriwch at y Polisi Cydnabod Dysgu Blaenorol (RPL) yn adran aelodau gwefan Highfield. Dylid darllen y polisi ar y cyd â'r fanyleb hon ac unrhyw ddogfennau perthnasol eraill gan Highfield.

Gofynion o ran tiwtoriaid

Mae Highfield Qualifications yn argymhell y dylai tiwtoriaid enwebedig y cymhwyster hwn gyflawni'r safonau canlynol:

- meddu ar gymhwyster perthnasol ym maes y pwnc, a gallai hynny gynnwys unrhyw un o'r canlynol:
 - Rheoli'n Ddiogel IOSH;
 - Cymhwyster lefel 3 neu 4 (neu gymhwyster cyfwerth) mewn iechyd a diogelwch;
 - Tystysgrif Gyffredinol Genedlaethol (neu gymhwyster ar lefel uwch) NEBOSH mewn Iechyd a Diogelwch Galwedigaethol;
 - HNC/D mewn pwnc cysylltiedig; neu
 - Tystiolaeth o 30 awr o leiaf o ddarparu iechyd a diogelwch
- meddu ar gymhwyster addysgu cymeradwy, a gallai hynny gynnwys unrhyw un o'r canlynol:
 - Dyfarniad Lefel 3 Highfield ym maes Darparu Hyfforddiant (RQF)
 - Dyfarniad Rhyngwladol Lefel 3 Highfield ym maes Darparu Hyfforddiant
 - Dyfarniad Lefel 3 (neu gymhwyster cyfwerth) ym maes Addysg a Hyfforddiant
 - Tystysgrif (neu gymhwyster uwch) mewn Addysg;
 - NVQ Lefel 3 (neu lefel uwch) mewn Hyfforddiant a/neu Ddatblygu; neu
 - Dystiolaeth o gynnig 30 awr o hyfforddiant o leiaf mewn unrhyw bwnc
- cynnal datblygiad proffesiynol parhaus priodol yn ymwneud â maes y pwnc

Addasiadau rhesymol ac ystyriaethau arbennig

Mae Highfield Qualifications wedi sefydlu mesurau ar gyfer dysgwyr y mae arnynt angen cymorth ychwanegol. Cyfeiriwch at Bolisi Addasiadau Rhesymol Highfield Qualifications i gael rhagor o wybodaeth/arweiniad.

Gofynion o ran dogfennau adnabod

Cyfrifoldeb y ganolfan yw sefydlu systemau i sicrhau mai'r unigolyn sy'n gwneud yr asesiad yw'r sawl mae'n honni bod. Mae'n ofynnol felly i ganolfannau sicrhau fod dogfen adnabod bob dysgwr yn cael ei harchwilio cyn iddynt wneud yr asesiad. Mae Highfield Qualifications yn argymhell y canlynol fel dull o brofi pwy yw dysgwr:

- pasbort dilys (unrhyw genedligrwydd)
- trwydded yrru â llun o'r DU wedi'i llofnodi
- cerdyn gwarant dilys a roddwyd gan luodd EM neu'r heddlu
- unrhyw gerdyn adnabod â llun arall, e.e. cerdyn adnabod cyflogai, cerdyn adnabod myfyriwr, cerdyn teithio ac ati

Os na fydd dysgwr yn gallu dangos unrhyw un o'r dogfennau adnabod â lluniau a restrir uchod, gall canolfan dderbyn math arall o ddogfen adnabod sy'n cynnwys llofnod, er enghraifft, cerdyn credyd. Bydd cadarnhad gan gynrychiolydd trydydd parti, megis rheolwr llinell, rheolwr adnoddau dynol neu oruchwyliwr arholiadau, hefyd yn dderbyniol.

I gael rhagor o wybodaeth am y gofynion o ran cadarnhau pwy yw dysgwyr, cyfeiriwch at Lawlyfr Craidd Highfield Qualifications.

Cyfleoedd i gamu ymlaen

Wrth gwblhau'r cymhwyster hwn yn llwyddiannus, gall dysgwyr ddewis parhau â'u datblygiad trwy ymgymryd ag un o'r cymwysterau dilynol:

- Dyfarniad Lefel 2 Highfield ynghylch Rheoli Sylweddau sy'n Beryglus i Iechyd
 - Dyfarniad Lefel 2 Highfield mewn Asesu Risgiau
 - Dyfarniad Lefel 3 Highfield mewn Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle
-

Gwefannau defnyddiol

- www.highfieldqualifications.com (Highfield Qualifications)
 - www.highfieldinternational.com (Highfield International)
 - www.highfield.co.uk (Highfield Products)
 - www.hse.gov.uk (Health and Safety Executive)
-

Deunyddiau hyfforddi argymelledig

Mae'r adnoddau canlynol wedi cael eu hadolygu gan Highfield Qualifications, ac argymhellir y gellir eu defnyddio fel deunyddiau i hyfforddi defnyddwyr y cymhwyster hwn.

- A Question of Health & Safety (Level 2), Sprenger, Christian M.R. Highfield International
 - The Health and Safety Handbook (Level 2), Sprenger, Christian M.R. Highfield International
 - Level 2 Health & Safety E-learning, Highfield International
 - Level 2 Award in Health and Safety, Digital Download PowerPoint, Trasler, K: Fisher, I. Highfield International
 - Level 2 Interactive Health and Safety Training Package, Sprenger, Christian M.R. Highfield International
 - Health & Safety 4U DVD, Highfield International
 - Level 2 Health & Safety Challenge DVD, Sprenger, Christian M.R. Highfield International
 - Cards4Safety Level 2 Health and Safety, Highfield International
-

Atodiad 1: Strwythur y cymhwyster

I gyflawni **Dyfarniad Lefel 2 Highfield mewn Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle (RQF)**, mae'n rhaid i ddysgwyr gyflawni'r uned orfodol ddilynol:

| Cyfeirnod yr uned | Teitl yr uned | Lefel | Credyd |
|-------------------|----------------------------------|-------|--------|
| L/615/5244 | Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle | 2 | 1 |

Atodiad 2: Cynnwys y cymhwyster

Uned 1: Iechyd a Diogelwch yn y Gweithle

Rhif yr uned: L/615/5244

Credyd: 1

GLH: 6

Lefel: 2

| Canlyniadau dysgu | Meini Prawf Asesu |
|---|--|
| Bydd y dysgwr yn | Gall y dysgwr |
| 1. Deall rolau a dyletswyddau yn ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles yn y gweithle | <p>1.1 Disgrifio'r dyletswyddau'r cyflogwr yn ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles yn y gweithle</p> <p>1.2 Disgrifio'r dyletswyddau'r cyflogai yn ymwneud ag iechyd, diogelwch a lles yn y gweithle</p> <p>1.3 Amlinellu buddion iechyd a diogelwch da yn y gweithle</p> |
| 2. Deall y broses o asesu risgiau | <p>2.1 Diffinio'r termau perygl, risg, damwain, methiant agos ac asesu risgiau</p> <p>2.2 Disgrifio'r camau sy'n rhan o asesu risg</p> |
| 3. Deall sut mae asesu risgiau yn gwella iechyd a diogelwch yn y gweithle | <p>3.1 Egluro peryglon ac effeithiau cyffredin damweiniau yn y gweithle, methiannau agos ac afiechyd yn y gweithle</p> <p>3.2 Disgrifio sut gall asesu risgiau leihau nifer yr achosion o ddamweiniau, methiannau achos ac afiechyd yn y gweithle</p> <p>3.3 Disgrifio enghreifftiau o fesurau i reoli peryglon cyffredin yn y gweithle</p> |
| 4. Gwybod bwth yw'r gweithdrefnau i ymateb i ddamweiniau, methiannau agos ac afiechyd yn y gweithle | <p>4.1 Nodi gweithdrefnau y dylid eu sefydlu er mwyn ymateb i argyfyngau</p> <p>4.2 Amlinellu pam mae'n bwysig cofnodi bob damwain, bob methiant agos a bob achos o afiechyd</p> |

Cynnwys dangosol

Mae'r rhan hon o'r fanyleb yn cynnig rhagor o fanylion ynghylch unrhyw arweiniad/gofynion ychwanegol ynghylch asesu i sicrhau fod asesiadau yn ddilys, yn ddibynadwy ac yn gymaradwy yn gyson.

Dyletswyddau cyflogwyr:

- Darparu (i'r graddau y bo hynny'n rhesymol ymarferol) lle diogel i weithio
- Darparu gwybodaeth, cyfarwyddiadau, hyfforddiant a goruchwyliaeth

- c) Darparu cyfleusterau lles digonol
- d) Sicrhau mynedfeydd ac allanfeydd diogel
- e) Darparu offer a PPE sy'n addas ac yn briodol i'w diben
- f) Sicrhau fod polisïau a gweithdrefnau
 - yn eu lle,
 - a'u bod yn cael eu hadolygu a'u
 - diweddarau

Dyletswyddau cyflogeion:

- a) Dyletswydd gofal
- b) Mae'n rhaid iddynt ddilyn y cyfarwyddiadau, yr arweiniad a'r hyfforddiant a roddir iddynt gan eu cyflogwr, yn cynnwys rhai yn ymwneud ag offer
- c) Ni ddylent ymyrryd ag unrhyw offer a ddarperir at ddibenion iechyd a diogelwch
- d) Mae'n rhaid iddynt roi gwybod am a chofnodi:
 - peryglon a allai achosi risg
 - damweiniau
 - methiannau agos, ac
 - afiechydon

Buddion

- a) Economaidd
- b) Moesol
- c) Dyletswyddau neu ofynion cyfreithiol

Camau

- a) Adnabod peryglon a sut byddant yn achosi niwed
- b) Pobl sy'n wynebu perygl
- c) Gwerthuso
- d) Cofnodi
- e) Adolygu

Peryglon

- a) Llithro, baglu a disgyn o lefydd uchel
- b) Ergonomeg
- c) Trafod â llaw
- d) Straen
- e) Deunyddiau peryglus
- f) Trais

Effeithiau

- a) Anaf
- b) Salwch
- c) Colledion Ariannol
- d) Colli Enw Da

Mesurau rheoli risgiau

- a) Cadw'r gweithle yn lân, yn daclus ac yn drefnus
- b) Rhwystrau a safleoedd amgaeëdig
- c) Technegau codi'n ddiogel ac offer
- d) Archwiliadau gweledol
- e) Storio deunyddiau peryglus yn ddiogel

- f) Dyluniad a threfn gweithfannau
- g) Gardiau ar beiriannau
- h) Offer Amddiffynnol Personol
- i) Egwyliau rheolaidd/gweithdrefnau riportio

Argyfyngau

- a) Cymorth cyntaf
- b) Damweiniau
- c) Gweithdrefnau gwagio

Atodiad 3: Deunydd Asesu Enghreifftiol

Cwestiynau enghreifftiol:

1. Rydych chi'n defnyddio ysgol ac rydych chi'n sylwi ar nam. Beth ddylech chi ei wneud?
 - A. Rhoi gwybod am nam pan fydd swyddog gorfodi yn ymweld â'r safle
 - B. Atgyweirio'r nam
 - C. Rhoi gwybod am y nam yn syth
 - D. Gorffen y dasg cyn rhoi gwybod am y nam
2. Fe wnaiff defnyddio offer foltedd isel yn y gweithle helpu i leihau'r tebygolrwydd o:
 - A. dirgryniad bys gwyn
 - B. anafiadau gwasgu
 - C. trydanladdiad
 - D. colli'r clyw
3. Pa un o'r canlynol sy'n fwyaf tebygol o achosi afiechyd sy'n gysylltiedig â gwaith?
 - A. Dermatitis
 - B. Clefyd resbiradol
 - C. Anhwylderau cyhyrysgerbydol
 - D. Canser